# Fforwm Rheoli Tir Cymru

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

**Lleoliad:** Cyfarfod Skype

**Dyddiad y Cyfarfod:** 7 Rhagfyr 2020

**Yn Bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Bob Vaughan, CNC

Steve Ormerod, CNC

Geraint Llyr Davies, CNC

Chris Blake, CNC

Dennis Matheson, TFA

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Hedd Pugh, NFU Cymru

Anthony Geddes, Confor

Tim Kirk, Confor

Sian Thomas, CFfI Cymru

Marc Williams, CNC

John Browne, CNC

**Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:**

Mydrian Harries, Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (Eitem 3 yn Unig)

Dominic Driver, CNC (Eitem 7 yn Unig)

Tom Jenkins, Forest Research (Eitem 7 yn Unig)

Kate Beausiap, Forest Research (Eitem 7 yn Unig)

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Marc Williams (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Martyn Evans, CNC

Ruth Jenkins, CNC

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Diolchodd y cadeirydd i Steve Ormerod (aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru) am ymuno â'r cyfarfod.

3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

4. Adolygodd y Grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi 2020 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. Adolygodd y Cadeirydd y Pwyntiau Gweithredu, a gwnaed y sylwadau a ganlyn:

• Pwynt gweithredu 02 Chwefror: Mark Alexander i ofyn am ragor o wybodaeth am y pecyn gwybodaeth brys, pryd y bydd hwn ar gael a'r wybodaeth y mae'n debygol o'i chynnwys.

- *Esboniodd Marc Williams fod e-bost wedi'i anfon at Spencer Conlon i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.*

• Pwynt gweithredu 04 Chwefror: Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Dr Cerys Jones gyflwyno cyfarfod o'r Fforwm yn y dyfodol.

- *Rachel Lewis-Davies i wahodd Dr Cerys Jones i gyfarfod yn y dyfodol pan gaiff dyddiadau newydd cyfarfodydd yn 2021 eu rhannu gyda'r grŵp.*

***Pwynt gweithredu 01 Rhagfyr: Rachel Lewis-Davies i wahodd Dr Cerys Jones i gyfarfod o'r Fforwm yn y dyfodol.***

***Pwynt gweithredu 02 Rhagfyr: CNC i anfon gwahoddiadau yn cynnwys dyddiadau newydd ar gyfer cyfarfodydd at yr aelodau (Marc Williams, CNC)***

• Pwynt gweithredu 04 Mai: CNC i ddosbarthu rhagor o wybodaeth i'r grŵp ar gynllunio ymgysylltu yn y dyfodol o ran Datganiadau Ardal (Martyn Evans, CNC).

- *Darperir yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddatganiadau Ardal o dan eitem Diweddariadau CNC ar yr agenda.*

• Pwynt gweithredu 03 Medi: Trafod â thîm Ceri Witchard yr angen i gyhoeddi ar frys ganllawiau ar Glefyd y Coed Ynn i dirfeddianwyr (Ruth Jenkins, CNC).

- *Diweddariad i'w ddarparu o dan eitem Diweddariadau CNC ar yr agenda.*

• Pwynt gweithredu 04 Medi: Bob Vaughan i drafod yr amserlenni gyda James Owen ac i drefnu gweithdy i gydlynu syniadau a thystiolaeth.

- *Mae Bob Vaughan wedi siarad â James Owen ond nid yw wedi darparu unrhyw ddyddiadau ar gyfer gweithdy. Bydd Bob yn mynd ar drywydd hyn a bydd yn hysbysu'r grŵp.*

• Pwynt gweithredu 05 Medi: Archwilio digwyddiad rhithiol arall ar gyfer rhanddeiliaid amaethyddol a choedwigaeth ar Ddatganiadau Ardal (Huwel Manley/Martyn Evans, CNC).

- *Diweddariad i'w ddarparu o dan eitem Diweddariadau CNC yn yr agenda.*

• Pwynt gweithredu 06 Medi: Darparu copi o Ganllawiau Mewnol CNC ynghylch Sgrinio Amonia i NFU Cymru ynghyd ag unrhyw iteriadau blaenorol (CNC)

## Eitem 3 Diweddariad ar Danau Glaswellt Bwriadol

6. Mydrian Harries, Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yw Cadeirydd Cyd-grŵp Llosgi Bwriadol Aml-asiantaeth Cymru (JAG). Rhoddodd Mydrian gyflwyniad i'r aelodau ar danau glaswellt bwriadol yng Nghymru. Rhoddodd Mydrian drosolwg o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a dangosodd nifer o sleidiau yn cynnwys data ynghylch tanau bwriadol. Mae nifer y tanau bwriadol a damweiniol yng Nghymru wedi gostwng yng Nghymru ers 2002, gyda 28,464 o danau bwriadol wedi'u cofnodi yn 2003-2004 o'i gymharu â 6,047 yn 2019-2020. Cyflawnwyd y gostyngiad drwy nifer o ffactorau megis addysg ysgol, newidiadau rheoleiddiol a gwaith codi ymwybyddiaeth gan yr heddlu.

7. Gwelwyd nifer sylweddol o danau glaswellt yn ardal De Cymru yn 2015 oherwydd y Gwanwyn sych. Cyflwynwyd Tasglu yn 2016 i fynd i'r afael â thanau bwriadol ar draws Cymru. Dangoswyd graff o nifer y tanau glaswellt fesul mis ers 2015 ac maent yn dibynnu i raddau helaeth ar y tywydd. Mae llawer o waith wedi'i gyflawni i ddileu'r stigma mai pobl ifanc sy'n gyfrifol am yr holl danau bwriadol. Mae hyn yn wir mewn rhai ardaloedd ond yn y rhan fwyaf o achosion mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn delio â thanau sy'n cael eu cynnau gan ffermwyr neu berchenogion tir heb fawr ddim rheolaeth.

8. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithio gyda phartneriaid, rhanddeiliaid ac asiantaethau i gasglu gwybodaeth am ble maent yn digwydd, a ydynt yn ad-droseddwyr etc ac i fod ar y blaen er mwyn lleihau'r effaith.

9. Lluniwyd y fersiwn ddiweddaraf o Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru (f4) ym mis Ionawr 2020 a chafodd y fersiwn gyntaf ei chyhoeddi yn 2007. Amlygir pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer Cymru yn y Strategaeth:

• Gwarchod ein cymunedau
• Addysgu ein cymunedau, yn hen ac yn ifanc
• Gwella’r gwaith o reoli tir ar hyd a lled Cymru
• Rhannu gwybodaeth ystyrlon a chyson
• Marchnata ein gwaith a chyfathrebu â'n cymunedau

10. Trafodwyd gwella arferion rheoli tir ar draws Cymru yn fanylach a fyddai'n berthnasol i'r grŵp. Mae adolygu deddfwriaeth llosgi dan reolaeth a chodau ymarfer ar adegau pan ganiateir llosgi gyda rhanddeiliaid yn bwysig, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth a newid agweddau o fewn y gymuned ffermio tuag at losgi dan reolaeth. Mae'r Bwrdd Lleihau Llosgi Bwriadol Strategol (SARB) wedi ymchwilio i fecanweithiau ar gyfer cosbi pobl sy’n camddefnyddio’n ddifrifol y cod llosgi ac wedi datblygu’r gwaith ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

11. Mae cynlluniau peilot ar gyfer rheoli tir wedi'u cynnal i ystyried sut y gellir lleihau tanau glaswellt a thanau gwyllt a gaiff eu cynnau yn fwriadol a rheoli llwythi tanwydd, yn enwedig gynllun peilot yn cynnwys rhedyn yn Erwyd. Mae'r grŵp yn datblygu mecanweithiau i alluogi'r Heddlu i nodi perchenogaeth tir yn gyflym ac yn effeithiol i ddefnyddio adnoddau ar yr adeg a'r lleoliad cywir. Bydd SARB yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i nodi a darparu cymorth i ddatblygu cynlluniau cymorth fferm yn y dyfodol, a chyda Grŵp Gorfodi Troseddau Bywyd Gwyllt Cymru i sicrhau bod y gwaith cyfunol yn cael mwy o effaith o ran osgoi difrod i gefn gwlad. Trwy gynnal sgyrsiau gyda'r grwpiau hyn, mae'n ddefnyddiol nodi unrhyw debygrwydd â thipio anghyfreithlon neu achosion llygredd sy'n digwydd yn yr un lleoliad, boed yn ymddygiad gyda pherson yn y lle hwnnw.

12. Yn 2016 crëwyd Ymgyrch DAWNS GLAW, sef tasglu newydd, i fynd i'r afael â thanau glaswellt bwriadol, yn Ne Cymru yn bennaf ond bydd yn berthnasol i Gymru gyfan. Fel rhan o'r rhaglen addysg ysgol mae dros 60,000 o blant a phobl ifanc yn derbyn neges gan y Gwasanaeth Tân ac Achub bob blwyddyn ynghylch diogelwch tân. Fodd bynnag, mae hynny wedi bod yn wahanol eleni oherwydd COVID.

13. Wrth edrych i'r dyfodol, hoffai'r grŵp gydweithio mwy gyda'r gymuned ffermio i gael mesurau rheoli ar waith a cheisio atal tanau gwyllt rhag digwydd. Rhannu unrhyw wybodaeth gyda Llywodraeth Cymru a Thrawsgydymffurfio ar danau tir fferm. Hoffent gael dull partner o ymdrin â'u hymgyrchoedd atal tanau bwriadol. Anogodd Mydrian unrhyw un o aelodau'r Fforwm i ymuno â'r Cyd-grŵp Llosgi Bwriadol Aml-asiantaeth gan gyfrannu at y gwaith neu arsylwi. Byddant yn croesawu hynny wrth geisio lleihau tanau bwriadol. Byddai croeso i unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu am hyn.

14. Gofynnodd Bob Vaughan a yw'r negeseuon gan y grŵp wedi'u cyflwyno fel sail i bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Papur Gwyn Amaethyddol. Cadarnhaodd Mydrian eu bod yn cymryd rhan, ac ymgynghorir â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn awr o ran ceisiadau cynllunio ymlaen llaw ar gyfer prosiectau adeiladu mawr.

15. Tynnodd Geraint Davies sylw at y ffaith y dylai hyn fod o fewn cynllun rheoli tir y dyfodol lle mae ffermwyr yn rheoli'r tir ac yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae gan Geraint brofiad o ymateb i danau glaswellt gan ei fod yn aelod o'r gwasanaeth Tân ac Achub yn y Bala. Nid yw’r cynlluniau sydd wedi cael eu cynllunio wedi darparu'r uchelfannau cywir mewn llystyfiant ac mae diffyg pori wedi cyfrannu at danau mewn ucheldiroedd.

16. Roedd Rachel Lewis-Davies am bwysleisio pwysigrwydd pori da byw mewn mannau agored, ond roedd hefyd eisiau tynnu sylw at y ffaith bod tanau'n digwydd ar dir hyfforddiant milwrol yn yr ucheldiroedd. O ganlyniad i’r gwaith gyda'r Bwrdd Lleihau Llosgi Bwriadol Strategol ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mae dealltwriaeth o'r angen i gefnogi trefniadau pori'r ucheldir drwy bolisi'r dyfodol.

17. Cytunai Anthony Geddes fod mwy o losgi yn digwydd, yn enwedig ar dir rhedyn. O safbwynt coedwigaeth, mae safleoedd a gynaeafir yn peri risg tân ynghyd â phlaniadau coed iau. Mae angen canllawiau clir ar gamau rheoli tân fel rhan o'r cynllun creu coetiroedd i reoli'r risgiau posibl. Hoffai Mydrian Harries i’r trafodaethau ehangach hynny gael eu cynnal i nodi'r safleoedd bregus a'r risgiau posibl i ddarparu negeseuon i'r cyhoedd.

18. Tynnodd Steve Ormerod sylw at y ffaith bod tair risg fawr i danau gan gynnwys lleihau pori, llwythi tanwydd sy'n newid llygredd aer (yn enwedig gyda dyddodion nitrogen yn cynyddu gorchudd rhedyn), a'r risg sydd ynghlwm wrth y newid yn yr hinsawdd. Holodd Steve a yw'r tair prif risg wedi'u cynnwys yn yr asesiad risg ar sut i ddefnyddio asedau ac mewn rhaglenni cyfathrebu. Cadarnhaodd Mydrian Harries fod y grŵp yn cynnal y sgyrsiau ehangach hyn ac yn ystyried sut i gyfleu'r negeseuon hyn i reolwyr tir a'r cyhoedd er mwyn lleihau tanau.

***Pwynt gweithredu 03 Rhagfyr: Cysylltwch â Mydrian Harries os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu i fod yn rhan o'r gwaith ymgysylltu i fynd i'r afael â thanau glaswellt bwriadol yng Nghymru (Pawb)***

## Eitem 4 Diweddariad CNC

19. Soniodd Marc Williams fod CNC wedi recriwtio ar gyfer rôl Cynghorydd Arbenigol y Fforwm a bydd Bronwen Martin yn dechrau ar 17 Rhagfyr 2020.

20. Cyflwynodd Bob Vaughan ddiweddariadau gan CNC i'r grŵp. Cafwyd diweddariad byr ar Ffliw Adar ac mae CNC yn llunio canllawiau fel y gall y staff eu dilyn. Mae Cymru gyfan mewn Parth Atal a'r wythnos nesaf bydd mesurau newydd yn cael eu cyflwyno yn ei gwneud hi’n orfodol i gadw dofednod ac adar caeth dan do.

21.Cafodd gwaith maes CNC ei ohirio yn ystod y cyfnod atal byr a gyflwynwyd ar gyfer Cymru gyfan, ond mae staff bellach yn ymweld â safleoedd ac yn dal i fyny â gwaith

maes a ohiriwyd. Mae staff CNC wedi bod yn ofalus iawn o ran y ffordd y maent wedi bod yn gweithredu ac maent wedi dilyn y canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

22. Mae Brexit yn destun pryder mawr unwaith eto ac mae CNC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn paratoi ar gyfer yr hyn a allai ddigwydd. Mae prosiect mawr wedi'i gynnal i asesu'r effeithiau a'r risgiau i CNC a busnesau yr ydym yn gweithredu gyda nhw.

23. Mae CNC yn paratoi i roi unrhyw gyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru ar fwrw ymlaen â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae grwpiau arbenigol wedi'u ffurfio yn fewnol gan ddod ag arbenigwyr technegol at ei gilydd i awgrymu syniadau a bwydo hynny'n ôl i Lywodraeth Cymru fel dull un llais gan CNC. Mae CNC yn hapus i rannu'r safbwyntiau hynny gyda'r aelodau ac yn barod i gynnal trafodaethau.

***Pwynt gweithredu 04 Rhagfyr: Rhannu gwybodaeth am safbwyntiau CNC ynghylch datblygiadau mewn perthynas â chynlluniau yn y dyfodol i'r aelodau (Bob Vaughan, CNC)***

24. Cyhoeddir adroddiad cryno SoNaRR2020 ar 18 Rhagfyr a bydd y prif benodau'n cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2021. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi fel cynnwys ar y we ynghyd â fersiwn pdf.

25. Cafwyd diweddariad byr ar Ddatganiadau Ardal (DA). Tynnwyd sylw at y ffaith bod gwybodaeth sy'n benodol i'r sector ar gael i ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir ar y wefan DA ac mae'n esbonio sut mae'r Polisi Adnoddau Naturiol a DA yn berthnasol i'r sector. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnig bod cyfle i ddefnyddio'r DA a rhoi gwybodaeth am flaenoriaethau gofodol posibl a nodi cwmpas y cyfleoedd. Mae CNC yn archwilio'r rôl y gallai DA ei chael mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a chynhaliwyd gweithdy mewnol. Un o ganlyniadau allweddol y gweithdy oedd defnyddio'r Fforwm fel seinfwrdd beirniadol i helpu i ddatblygu cyfleoedd cydweithredol a deall safbwyntiau ffermwyr a rheolwyr tir.

26. Mae cynnig i drefnu gweithdy pellach gyda'r Fforwm a rhai sefydliadau cenedlaethol eraill sy'n gysylltiedig â'r sector tir i'w cynnal yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Codwyd nifer o bryderon gan aelodau'r Fforwm a sefydliadau eraill nad ydynt yn gallu mynychu pob gweithdy ardal.

27. Mae CNC yn ystyried creu Porth Gwybodaeth i Gymru i gasglu cwmpas ac amrywiaeth y data gofodol a ddefnyddir i roi cyd-destun i DA. Mae CNC yn awyddus i ymchwilio i hyn ar y cyd â'r Fforwm cyn gynted â phosibl fel bod modd ystyried dulliau o syntheseiddio, dehongli a chyflwyno gwybodaeth sydd gan CNC a Llywodraeth Cymru i lywio opsiynau rheoli ffermwyr a rheolwyr tir yn y dyfodol.

***Pwynt gweithredu 05 Rhagfyr: Dosbarthu briff am Ddatganiadau Ardal i'r holl aelodau (Marc Williams, CNC)***

28. Mae CNC wedi cynnal adolygiad mawr o wybodaeth a data ar afonydd sy'n ardaloedd cadwraeth arbennig ledled Cymru ynghyd â'r cyngor sy'n cael ei roi i ddatblygwyr ac awdurdodau lleol. Mae CNC wedi datgelu rhai problemau o ran y data am Afon Gwy, ond mae dadansoddiad pellach o'r data yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Bydd yr holl

wybodaeth hon yn cael ei chasglu ynghyd mewn adroddiad ar yr holl afonydd sy’n ardaloedd cadwraeth arbennig a fydd yn cael ei lunio dros y mis nesaf.

## Eitem 5 Diweddariad gan Aelodau eraill y Fforwm

29. NFU Cymru: Yn ddiweddar cynhaliwyd seminar Sero Net llwyddiannus ar gyfer aelodau a rhanddeiliaid. Yn ystod yr hydref cynhaliodd NFU Cymru arolwg a chyhoeddodd adroddiad ar y Weledigaeth ar gyfer Ffermio Ucheldir Cymru. Diben hyn oedd deall yn well gyfraniad ffermwyr yr ucheldir at gymunedau, yr amgylchedd, yr economi, lles cymdeithasol a diwylliannol, ynghyd â thynnu sylw at eu pryderon. Mae pryderon ymysg aelodau ynghylch hysbysiadau i dorri coed llarwydd ar eu tir oherwydd ffistoffthora gydag amserlen o ddim ond 5 mis. Tynnodd Tim Kirk sylw at y ffaith bod hyn hefyd yn berthnasol i goedwigwyr ac mae prinder peiriannau i gwblhau gwaith erbyn diwedd mis Mawrth. Esboniodd John Browne fod gwybodaeth ynghlwm wrth yr hysbysiad i gysylltu â CNC am gyngor pellach.

***Pwynt gweithredu 06 Rhagfyr: CNC i roi papur briffio byr i NFU Cymru ar hysbysiadau coed llarwydd i'w dosbarthu i'w haelodau (CNC)***

30. CFfI Cymru: Yn sgil COVID-19, nid yw aelodau CFfI Cymru wedi gallu cyfarfod ac mae'r sefydliad wedi wynebu trafferthion o ran denu aelodau. Maent wedi gallu creu cystadlaethau rhithwir i'w haelodau. Mae CNC yn gweithio gyda CFfI Cymru i greu gweithgareddau clwb nos y gellir eu gwneud yn rhithiol.

31. Confor: Tynnwyd sylw at ddiffyg allbwn gan Lywodraeth Cymru hyd yma ynghylch Clefyd y Coed Ynn. Mae angen sylweddol i Lywodraeth Cymru gyflymu’r gwaith ac ymdrin â'r materion sy'n ymwneud â Chlefyd y Coed Ynn. Bu cynnydd yn y camau cwympo coed sy'n digwydd, wedi'u trwyddedu ai peidio, oherwydd coed peryglus. Mae Cyfnod 10 cynllun Creu Coetir Glastir bellach ar agor ar gyfer ceisiadau ac mae llawer o geisiadau wedi’u derbyn gan ffermwyr a thirfeddianwyr. Ar sail nifer y ceisiadau ymddengys fod mwy o ddiddordeb mewn plannu coed. Mae'r farchnad goed yn parhau’n gymharol lewyrchus gyda ffensys ac mae marchnadoedd adeiladu yn cefnogi hynny. Maen nhw'n aros i weld beth fydd sefyllfa’r farchnad ar ôl Brexit. Codwyd pryderon ynghylch ystyried Draenio Cynaliadwy (SDS) mewn perthynas â cheisiadau coedwigaeth.

***Pwynt gweithredu 07 Rhagfyr: Ychwanegu Draenio Cynaliadwy at agenda'r cyfarfod nesaf (Marc Williams, CNC)***

32. TFA: Ymunodd Dennis Matheson â dau weithdy Datganiad Ardal y Gogledd-ddwyrain ac roedd yn siomedig am y ffaith nad oedd llawer o ffermwyr lleol yn bresennol. Roedd diffyg dealltwriaeth o faterion tenantiaeth, yn enwedig o ran manteisio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd neu blannu coetiroedd. Ar hyn o bryd mae TFA yn gwneud gwaith yn dilyn y cyhoeddiad gan y trysorlys i leihau’r cyllid i Gymru a'r Alban. Os caiff yr arian ei leihau ac os na all Cymru ddarparu cyllid a fydd yn cyfateb i gyllid yr UE ar gyfer Cynlluniau Amgylcheddol, bydd y rhain yn cael eu colli.

## Eitem 6 Diweddariadau gan y Fforymau

33. Cyfarfu Is-grŵp y Fforwm ar lygredd amaethyddol ar ddechrau mis Tachwedd ar ôl oedi byr ac mae'r prif ffocws ar yr argymhellion blaenoriaeth a ddewiswyd gan yr aelodau. Ystyriwyd yn ystod y cyfarfod atebion a sut i symud yr argymhellion hyn yn eu blaen i wella ansawdd dŵr. Mae cofnodion y grŵp bellach ar gael ar wefan CNC yn dilyn materion o ran hygyrchedd ar y we dros yr haf.

34. Cyflwynodd Steve Ormerod ddiweddariad ar y Fforwm Pysgodfeydd. Mae'r fforwm wedi ehangu'n ddiweddar ac mae mwy o aelodau wedi ymuno â'r grŵp. Rhoddodd Bob Vaughan gyflwyniad ar reoli tir yn gynaliadwy wrth symud ymlaen a rheoliadau amaethyddol. Cafwyd adroddiad gan Gary White ar reoli digwyddiadau a'r targedau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau. Cafwyd adroddiad a thrafodaeth ar gael mynediad i afonydd a sut mae CNC yn datrys rhai problemau o ran mynediad a hamdden.

35. Cyflwynodd Steve Ormerod ddiweddariad hefyd am Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Tri mater craidd a drafodwyd yn y cyfarfod oedd llygryddion biogronnol parhaus yn yr amgylchedd dŵr, y Cynlluniau Rheoli Basn Afon, ac adnoddau dŵr a throsglwyddiadau dŵr yng Ngorllewin Prydain.

## Eitem 7 Diweddariad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Fforwm ar Greu Coetiroedd

36. Eglurodd Dominic Driver yn fyr fod y Fforwm wedi comisiynu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i nodi argymhellion a llunio adroddiad ar Greu Coetiroedd. Tynnodd Dominic Driver sylw at y ffaith bod yr argymhellion yn rhesymol ond y gallent fod wedi bod yn fwy radical. Roedd Chris Blake, CNC, eisiau diolch i Tom Jenkins a Kate Beauchamp o Forest Research am baratoi'r adroddiad.

37. Tynnodd Bob Vaughan sylw at y ffaith bod llawer o gamddealltwriaeth o hyd ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud a bydd yr adroddiad hwn yn helpu i symud y gwaith ymlaen a sicrhau eglurder o ran creu coetiroedd.

38. Soniodd Dennis Matheson ei fod wedi gwneud sylwadau ar yr adroddiad drafft ac fel sefydliad byddent yn ymrwymo i'r adroddiad gan ei fod yn drylwyr iawn. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu eu bod yn ymrwymo i'r cysyniad o greu coetiroedd ac ni fyddant ond yn cefnogi hyn os nad yw'n effeithio ar ddiogelwch bwyd, cynefinoedd presennol a system tenantiaid y landlord. Ar hyn o bryd mae TFA yn teimlo y bydd effaith andwyol ar y rhain i gyd ac mae angen mynd i'r afael â dulliau o ddatrys y materion hyn.

39. Roedd Rachel Lewis-Davies yn falch iawn o roi sylwadau ar yr adroddiad drafft a chafodd eu barn ei hadlewyrchu yn yr adroddiad. Mae Rachel yn cytuno â Dennis o ran y pryderon ynghylch y sector tenantiaethau a'r angen i archwilio mwy o'r risgiau i fusnesau tenantiaid. Un o argymhellion allweddol adroddiad Gweledigaeth Ffermio Ucheldir Cymru oedd yr angen i Lywodraeth Cymru a CNC nodi fframwaith mwy cytbwys ar gyfer penderfyniadau hirdymor.

40. Dywedodd Tom Jenkins eu bod wedi ceisio ystyried sylwadau diweddar TFA a phwysleisio'r effeithiau posibl ar boblogaeth sylweddol, bwysig ac unigryw ffermwyr sy'n denantiaid.

41. Roedd Chris Blake am ddiolch i bawb am eu cyfraniad i gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mae'r grŵp wedi dwyn ynghyd wybodaeth a data sy'n bodoli eisoes ynghyd â gwahanol safbwyntiau. Mae'r adroddiad yn grynodeb cynhwysfawr ond erbyn hyn mae angen Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gyflawni'r gwaith a throi'r argymhellion yn bolisi.

42. Ystyriodd Zoe Henderson a ddylid cynnwys cynllun blaengar yn y nodyn eglurhaol er mwyn cyflawni'r nodau. Byddai'r Fforwm am weld Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r adborth a'r camau nesaf o ran sut i gyflawni'r camau gweithredu yn yr adroddiad. Tynnodd Chris Blake sylw at y ffaith bod angen adnoddau er mwyn cyflawni'r camau gweithredu. Cytunwyd i gynnwys yr angen am gymeradwyaeth, adnoddau a fframwaith yn y nodyn eglurhaol i Lywodraeth Cymru. Awgrymodd Chris Blake a ellid cyflawni'r gwaith hwn fel rhan o'r Adferiad Gwyrdd, sydd ag adnoddau.

***Pwynt gweithredu 08 Rhagfyr: Zoe Henderson a Chris Blake i friffio Syr David Henshaw ynghylch yr adroddiad ac a allai hyn fod yn flaenoriaeth o dan Adferiad Gwyrdd***

43. Mae angen archwilio cyllid anllywodraethol i gefnogi gwaith creu coetiroedd ac mae CNC wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru o ran eu Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol gan ei bod yn amlwg na fydd yr arian yno i gwmpasu'r holl ddyheadau. Tynnodd Geraint Davies sylw at y ffaith bod angen i werthoedd pwysig gan gynnwys cynhyrchu bwyd cynaliadwy, diwylliant ac iaith gyd-fynd â'r gwaith hwn o greu coetiroedd. Roedd gan Zoe Henderson bryder mai ychydig iawn o sôn a gafwyd am yr hyn y defnyddir y coetiroedd ar ei gyfer. Soniodd Rachel Lewis-Davies am un o'r argymhellion sy'n cydnabod fframwaith polisi cytbwys i adlewyrchu amcanion ehangach. Mae NFU Cymru yn edrych ar sut i gyflawni'r targedau plannu coed a sut y gall ffermwyr gyfrannu heb effeithio ar gynhyrchu bwyd a busnesau fferm.

44. Tynnodd NFU Cymru sylw at y ffaith y bydd angen i'r grŵp a CNC feddwl yn ofalus iawn sut y caiff yr adroddiad a'r negeseuon eu cyfleu'n gyhoeddus. Bydd y gymuned ffermio yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o greu coetiroedd i gyrraedd y targedau hyn ac mae angen i'r iaith a fydd yn cael ei defnyddio fod yn addas i'r perwyl hwn.

45. Mae'r holl aelodau wedi ystyried a chymeradwyo'r adroddiad. Caiff hwn ei gyflwyno'n ffurfiol i CNC i'w ystyried a chreu cynllun gweithredu ar ei gyfer cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## Eitem 8 Manylion y cyfarfodydd sydd i ddod

46. Bydd dyddiadau'n cael eu cadarnhau'n fuan, a bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon at yr aelodau.

## Eitem 9 Unrhyw Fater Arall

47. Mae'r ymgynghoriad ar Sgrinio Amonia bellach wedi dod i ben ac mae CNC yn gweithio ar sylwadau ac ymatebion gwahanol sefydliadau. Bydd diweddariad ar nifer yr ymatebion a Betterment yn cael ei anfon at yr aelodau pan fyddant ar gael.

48. Lansiwyd yr adroddiad Adferiad Gwyrdd yr wythnos ddiwethaf ac roedd yn ymdrin â nifer o bynciau gan gynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur, trawsnewid systemau

economaidd-gymdeithasol, economi gylchol a thwristiaeth. Bydd y grŵp yn arwain cynigion pellach ym mis Chwefror 2021 lle mae cyfle i awgrymu mesurau ychwanegol. Nododd Rachel Lewis-Davies y bydd angen i CNC ystyried yn ofalus iawn o ran nad yw'r gwaith hwn yn galw am gasgliad o brosiectau.

***Pwynt gweithredu 09 Rhagfyr: Dosbarthu'r Adroddiadau Adferiad Gwyrdd i'r holl aelodau (Marc Williams, CNC)***

***Pwynt gweithredu 10 Rhagfyr: Ychwanegu Adferiad Gwyrdd at agenda'r cyfarfod nesaf (Marc Williams, CNC)***

## Diwedd y cyfarfod